



## Powys County Council Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 15<sup>th</sup> May 2013. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

<b>Councillor:</b> Sandra C. Davies	<b>Tel:</b> 01639 830835
<b>Ward:</b> Cwm-twrch	<b>Mobile:</b> 07881 908923
<b>Shire:</b> Brecknockshire	<b>Email:</b> cllr.sandra.davies@powys.gov.uk
<b>Group:</b> Welsh Labour	<b>Date:</b> September 2013

### Section 1: Role & Responsibilities

I served on these Powys County Council committees [actual attendance/number of meetings held] and working groups:

Powys County Council - 7/9

Audit Committee – 4/4

- Internal Audit Working Group.

Democratic Services Committee (Chair) – 6/6

- Member Development Working Group (Chair)

Brecknockshire Committee – 7/7

Joint Chairs and Vice-Chairs Steering Group – Scrutiny, Audit and Democratic Services Committees

As Leader of the Welsh Labour Group I attended Group Leaders' Meetings.

I served on the following Outside Organisations:

The Local Management Committee of Ystradgynlais Sports Centre (Chair). I was a Governor on Ysgol Dyffryn Y Glowyr and Ysgol Bro Tawe, I sat on various Sub Committees on both School Governing Bodies.

### Section 2: Constituency Activity

- I supported two local Tenant Resident Associations: Tai Gwalia and Gurnos.
- I have been involved in helping regenerate Gurnos Estate, working with and supporting the local Tenants' Residents Association: a new Children's Park was opened and a Play Pod was provided.
- Various seats and bollards have been requested and placed throughout Cwmtwrch.
- I attended the Ystradgynlais and District Access meetings and the Brecon Access meetings, helping to raise awareness of access issues.
- I attended the Ystradgynlais Area Tenants' Panel Meetings and Cross Border Collaboration meetings.
- A new bridge in Lower Cwmtwrch has recently been completed linking Powys with Neath Port Talbot and now the weight restriction has been lifted.

- I undertook individual case work for local residents on various issues ranging from planning, housing, benefits and so on.
- I have been involved in supporting groups of local people concerned about local transport, bringing officers to speak with them.
- I have been working with officers and people in Gurnos on flooding issues, trying to identify the problems and help alleviate them.
- The new area Welsh School, Ysgol Dyffryn Y Glowyr, in Bethel Road opened.

**Section 3: Learning & Development** - after the Elections in May 2012 induction sessions were provided during May and June to ensure that Councillors could undertake their roles. Ongoing monthly development is provided.

Induction sessions – Code of Conduct; Safeguarding and Corporate Parenting; Audit Committee; Welsh Local Government Association Scrutiny Induction.

Ongoing Development - Treasury Management, Information Handling and Data Protection, Estyn Update; Performance and Project Management; Adult Social Care; Members' Annual Reports and using Outlook

I undertook regular Governor Training. I attended Seminars on Social Services, etc.

**Section 4: Outside Organisations and Other Activities**



## Cyngor Sir Powys Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 15 Mai, 2013. Caiff ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

<b>Cynghorydd:</b> Sandra C. Davies	<b>Ffôn:</b> 01639 830835
<b>Ward:</b> Cwm-twrch	<b>Ffôn symudol:</b> 07881 908923
<b>Ardal</b> Sir Frycheiniog	<b>Ebost:</b> <a href="mailto:cllr.sandra.davies@powys.gov.uk">cllr.sandra.davies@powys.gov.uk</a>
<b>Grwp:</b> Llafur Cymru	<b>Dyddiad:</b> Medi 2013

### Adran 1: Rolau a Chyfrifoldebau

Gwasanaethais ar y Pwyllgorau hyn o Gyngor Sir Powys [presenoldeb gwirioneddol / nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd] a'r Gweithgorau hyn:

Cyngor Sir Powys - 7/9

Pwyllgor Archwilio - 4/4

- Gweithgor Archwilio Mewnol.

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Cadeirydd) - 6/6

- Gweithgor Datblygu Aelodau (Cadeirydd)

Pwyllgor Sir Frycheiniog - 7/7

Grŵp Llywio Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion ar y Cyd - Pwyllgorau Craffu, Archwilio a Gwasanaethau Democrataidd

Fel Arweinydd Grŵp Llafur Cymru mynychais Gyfarfodydd Arweinwyr y Grwpiau.

Gwasanaethais ar y Cyrff Allanol canlynol:

Pwyllgor Rheoli Lleol Canolfan Chwaraeon Ystradgynlais (Cadeirydd). Roeddwn yn Llywodraethwr ar Ysgol Dyffryn Y Glowyr ac Ysgol Bro Tawe. Eisteddais ar nifer o Is-bwyllgorau amrywiol Cyrff Llywodraethol y ddwy ysgol.

### Adran 2: Gweithgaredd Etholaethol

- Cefnogais ddwy Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr leol: Tai Gwalia a Gurnos.
- Rwyf wedi bod yn ymwneud â helpu i adfywio Stad Gurnos, gan weithio gyda a chefnogi'r Gymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr leol: agorwyd Parc Plant newydd a darparwyd Pod Chwarae.
- Gofynnwyd am nifer o seddi a bolardiau ac fe'u gosodwyd mewn gwahanol lefydd yng Nghwmtwrch.
- Mynychais gyfarfodydd Mynediad Ystradgynlais a'r Cylch a chyfarfodydd Mynediad Aberhonddu, gan helpu i godi ymwybyddiaeth am faterion mynediad.
- Mynychais Gyfarfodydd Panel Tenantiaid Ardal Ystradgynlais a chyfarfodydd Cydweithio Trawsffiniol.
- Cwblhawyd pont newydd yng Nghwm-twrch Isaf yn ddiweddar sy'n cysylltu Powys â

Chastell-nedd Port Talbot a bellach mae'r cyfyngiad pwysau wedi cael ei godi.

- Rwyf wedi bod yn gwneud gwaith achos unigol i drigolion lleol ar amryw o faterion fel cynllunio, tai, budd-daliadau ac yn y blaen.
- Rwyf wedi bod yn ymwneud â chefnogi grwpiau o bobl leol sy'n poeni am drafnidiaeth leol, gan ddod â swyddogion i siarad â nhw.
- Rwyf wedi bod yn gweithio gyda swyddogion a phobl yn y Gurnos ynghylch problemau llifogydd, gan geisio adnabod y problemau a helpu i'w lleddfu.
- Agorodd Ysgol Gymraeg newydd yr ardal, Ysgol Dyffryn y Glowyr, yn Bethel Road.

**Adran 3: Dysgu a Datblygu** - ar ôl yr Etholiadau ym mis Mai 2012 darparwyd sesiynau cynefino yn ystod mis Mai a mis Mehefin er mwyn sicrhau y gallai'r cynghorwyr gyflawni eu rolau. Mae datblygiad misol parhaus yn cael ei ddarparu.

Sesiynau cynefino - Cod Ymddygiad; Diogelu a Rhianta Corfforaethol; Pwyllgor Archwilio; Cynefino â Chraffu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru..

Datblygiad Parhaus - Rheoli'r Trysorlys, Trin Gwybodaeth a Diogelu Data, Diweddariad Estyn; Rheoli Perfformiad a Phrosiectau, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau a defnyddio Outlook

Bum yn mynychu hyfforddiant rheolaidd i Lywodraethwyr. Mynychais Seminarau ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac ati

**Adran 4: Adran 4: Cyrff Allanol a Gweithgareddau Eraill**